





Ysgol Gyfun Y Strade

# Prosbectws Yr Ysgol
# School Prospectus

Medi **2019** September












## Ethos a Gwerthoedd Ysgol Y Strade

Mae'r ysgol yn darparu, o fewn cymuned Gymraeg, hapus, a diogel, yr ystod ehangaf posibl o brofiadau addysgol, gan baratoi ein hieuenctid ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol ac i arddangos parch a chwrteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion. Ysgol Gymraeg yw'r Strade, a disgwylir i'r disgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg bob cyfle posibl y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

## Ethos and Values of Ysgol Y Strade

The school provides, within a safe and happy Welsh community, the widest possible range of educational opportunities, thus preparing our young people for their future. This allows each child to achieve his or her academic, practical and social potential in addition to showing respect and displaying courtesy to fellow pupils and adults. Y Strade is a Welsh school and pupils are expected to use the Welsh language on all possible occasions inside and outside the classroom.

# Cyfle i ragori trwy'r Gymraeg

# Opportunities to excel through the Welsh language

Ysgol Y Strade, Heol Sandy, Pwll, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 4DL.
Ffôn/Tel: 01554 745100 Ffacs/Facs: 01554 745106

Gwefan/Website: www.ysgolystrade.org
E-bost/E.mail: swyddfa@strade.sirgar.sch.uk

# Ysgol Y Strade

**"Nid da lle gellir gwell"**

Sefydlwyd Ysgol Gyfun Y Strade ym 1977 fel Ysgol Gyfun Ddwyieithog i fechgyn a merched rhwng 11 a 18+ oed.

Ym mis Medi 2019 bydd ymhell dros 1,000 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda thua 200 yn y flwyddyn gyntaf.

Mae'r ysgol yn ymrwymo ei hun fel sefydliad i gynnal a chodi safonau gwaith ac ymddygiad y disgyblion ac i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymuned ddwyieithog. Mae cynllun datblygiad a thargedau gwelliant blynyddol yr ysgol yn cyfeirio at y prif nodau hyn.

Mae staff a disgyblion Y Strade yn gweithio'n egniol i gynnal arwyddair yr ysgol, sef
-"Nid da lle gellir gwell".

**"Nid da lle gellir gwell"**

Ysgol Gyfun y Strade was established in 1977 as a mixed Bilingual Comprehensive School (Ages 11-18).

In September 2019 it will have well over 1,000 pupils with a first year intake of approximately 200.

The school is committed to maintaining and raising the standards of pupils' work and behaviour and promoting Welsh medium education in a bilingual community. The annual school development plan and improvement targets directly relate to these aims.

Staff and pupils at Strade work enthusiastically to uphold the school's motto, namely-
"Nid da lle gellir gwell".





# Croeso i'r Strade

# Welcome to Strade

Annwyl Ddarpar Rieni a Chyfeillion,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno prosbectws diweddaraf yr ysgol i chi gan obeithio y cewch ynddo flas o'r hyn a gynigir gan Ysgol Gyfun Y Strade.

Fe welwch ein bod yn ysgol unigryw yn ardal Llanelli. Y Strade yw'r unig ysgol gyfun Gymraeg yn yr ardal a ni hefyd yw'r unig ysgol gyda Chweched Dosbarth. Fe all hyn fod yn bwysig yn eich dewis o ysgol ar gyfer eich plentyn wrth iddynt symud ymlaen i addysg ôl-16.

Mae gwaith adeiladu ac adnewyddu sylweddol wedi digwydd ar safle'r Ysgol dros y tair mlynedd diwethaf. Rydyn ni fel ysgol gyfan yn ymfalchio yn ein hadeiladau modern a'n nod yw sicrhau bod gan ddisgyblion y Strade fynediad i'r adnoddau gorau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Anelwn at sicrhau'r safonau uchaf i'n disgyblion ym mhob agwedd o fywyd ysgol er mwyn eu paratoi at her y dyfodol. Mae pob unigolyn yn bwysig i ni ac anelwn at sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ragori.

'Rydym yn ymfalchio yn yr hanes hir o lwyddiant sydd i Ysgol Y Strade mewn maesydd academaidd, chwaraeon ac allgyrsiol. Gobeithiaf y bydd eich plentyn chi yn medru elwa o a chyfrannu at lwyddiant pellach i'r dyfodol.

Er y wybodaeth a gewch rhwng cloriau'r prosbectws hwn, bydd angen i chi ymweld â ni i brofi'r cyfeillgarwch a'r hapusrwydd sydd yn perthyn i'n hysgol ni. Bydd yr ethos deuluol yma yn sail gadarn ar gyfer sicrhau y bydd eich plentyn chi yn cyflawni ei botensial yn yr ysgol.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod a dymunaf bob llwyddiant a hapusrwydd i'ch plentyn fel aelod newydd o deulu Ysgol Gyfun Y Strade.

Os oes gennych ymholiad, cofiwch gysylltu â mi yn yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

Geoff Evans
Pennaeth

Dear Prospective Parents and Friends,

It gives me great pleasure to present you with our latest School Prospectus as your child embarks upon their journey into secondary education.

Our school is unique in Llanelli. Ysgol Y Strade is the only Welsh medium comprehensive school in the Llanelli area and it is the only school to have a Sixth Form; the seamless transition into post 16 education could be an important consideration when choosing a school for your child.

Substantial building work and redevelopment of existing facilities have taken place at the school site over the last three years. We are very proud of our modern new buildings and aim to ensure that our pupils have access to the very best facilities during their time in school.

We aim to ensure the highest standards for our pupils in every aspect of school life so that they are prepared for the challenges of the future. Every individual is important to us and our aim is allow the pupils in our care to excel, whatever their strengths may be.

We take pride in our long history of success, academic, sporting and extra-curricular. I hope that your child will benefit from and contribute to the further success of the school during their time with us.

As well as the information provided in this prospectus you can also arrange to visit the school to experience the friendly and happy atmosphere. Such a homely ethos provides a solid foundation to enable your child to fulfil their potential.

I look forward to meeting you and wish your child every success and happiness as a new member of our school.

If you have any queries, do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

Geoff Evans
Headteacher

# Rheolau Cyffredinol yr Ysgol

# General School Rules

| Trefn Y Dydd / The School Day | | |
|---|---|---|
| 8.30 | Cloch | Bell |
| 8.30 - 9.00 | Cofrestru, Gwasanaeth a'r Rhaglen Fugeiliol | Registration, Assembly, Pastoral Programme |
| 9.00 - 10.00 | Gwers 1 | Lesson 1 |
| 10.00 - 11.00 | Gwers 2 | Lesson 2 |
| 11.00 - 11.15 | Egwyl | Break |
| 11.15 - 12.15 | Gwers 3 | Lesson 3 |
| 12.15 - 1.15 | Gwers 4 | Lesson 4 |
| 1.15 - 2.10 | Cinio | Lunch |
| 2.15 - 3.15 | Gwers 5 | Lesson 5 |
| 3.15 | Diwedd y dydd | End of the day |

Ar rai achlysuron arbennig mae amserau'r ysgol yn newid a rhoddir gwybodaeth i rieni ar ffurf llythyr e.e. cau'n gynnar.

Mae rheolau ymddygiad yn hanfodol ar gyfer cymuned fel ysgol a dyma grynodeb o reolau cyffredinol yr ysgol:

- Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn gywir.
- Disgwylir i ddisgyblion fod yn brydlon bob amser. Bydd cofrestru am 8.30 a rhaid bod yn yr ysgol pum munud cyn yr amser hyn.
- Dylid bod yn brydlon i'r gwersi bob amser.
- Rhaid cyflwyno nodyn absenoldeb ar y diwrnod cyntaf yn dilyn absenoldeb.
- Tlysau - Caniateir i fechgyn a merched wisgo i fyny at un styden yn unig ymhob clust. Caniateir gwisgo un fodrwy yn unig. Ni chaniateir steil gwallt eithafol.
- Ni fydd hawl gan ddisgyblion i adael tir yr ysgol rhwng 8.30am a 3.15pm heb ganiatad y Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Penaethiaid Cynorthwyol neu'r Penaethiaid Safonau. Yn ychwanegol ni chaniateir i ddisgyblion groesi Heol Sandy o'r bae bysiau i'r garej a'r caffi yn y cyfnod cyn 8.30 nac yn y cyfnod wedi 3.15 tra'n aros am y bysiau.
- Mae ysmygu ar dir yr ysgol, ar fysiau ysgol ac mewn lleoedd cyhoeddus yn cael ei wahardd yn llwyr.
- Rhaid i ymddygiad y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol fod yn rhesymol a rhaid dangos parch at bobl ac eiddo.
- Does dim hawl defnyddio ffonau symudol rhwng 9:15yb – 3:15yp

Mae rheolau penodol eraill i'w cael heblaw am y rhain.

There may be some rare occasions where the school times will be altered and parents will be given the necessary information in the form of a letter e.g. closing early.

A code of behaviour is essential for a community like a school and here is a summary of the general school rules:

- Pupils are required to wear the official school uniform correctly.
- Pupils are expected to be punctual at all times. Registration will be at 8.30 and pupils must be in school at least 5 minutes before this time. Pupils must arrive at lessons on time.
- Absentee notes must be presented on the first day following an absence.
- Jewellery - Boys and girls are permitted to wear one stud in each ear. One ring is also permitted. Extreme hair styles are not acceptable.
- Pupils will not be allowed to leave the school premises between 8.30am and 3.15pm without the express permission of the Headteacher, Deputy, Assistant Headteachers or Heads of Standards. In addition pupils are not permitted to cross Sandy Road from the bus bay to the garage and café prior to 8.30 and after 3.15 whilst waiting for the buses.
- Smoking on school premises, on school buses and in public places is strictly forbidden.
- Behaviour both in and out of school must be reasonable and respect must be shown for people and property.
- No mobile phones are to be used between 9:15pm – 3:15pm

There are other specific rules to be followed apart from these.

# Mynediad i'r Ysgol

Does dim dalgylch fel y cyfryw gan yr ysgol hon am ei bod hi'n draddodiadol yn ysgol o ddewis y rhieni. Mae mwyafrif o'n disgyblion yn cyrraedd o'r ysgolion canlynol:

- Ysgol Brynsierfel, Llwynhendy
- Ysgol Dewi Sant, Llanelli
- Y Felin
- Ffwrnes
- Ysgol Gwenllian, Cydweli
- Hendy
- Llangennech
- Ysgol Parc y Tywyn, Porth Tywyn
- Pum Heol
- Trimsaran
- Mynyddygarreg

Croesawir disgyblion o ysgolion cynradd eraill tu hwnt i gylch Llanelli.

# Admission to School

The school has no defined catchment area since it has traditionally been a school of parental choice. However the majority of the existing pupils have come from the following schools:

- Ysgol Brynsierfel, Llwynhendy
- Ysgol Dewi Sant, Llanelli
- Y Felin
- Ffwrnes
- Ysgol Gwenllian, Cydweli
- Hendy
- Llangennech
- Mynyddygarreg
- Ysgol Parc y Tywyn, Porth Tywyn
- Pum Heol
- Trimsaran

Individual pupils can also be accepted from other Primary Schools outside the Llanelli area.

# Cludiant i'r Ysgol

Darperir cludiant gan yr AALI ar gyfer disgyblion y dalgylch sy'n byw dros dair milltir i ffwrdd o'r ysgol. Petai problem yn codi o ran trefniadau cludiant, gofynnir i rieni gysylltu â'r Swyddfa Trafnidiaeth Ysgol yng Nghaerfyrddin ar 01267 234567.

Yn ystod tywydd garw, darlledir trefniadau manwl ar y gorsaf radio lleol ac ar wefan yr ysgol www.ysgolystrade.org neu ar www.carmarthenshire.gov.uk.

# Transport to school

Transfer is provided by the LEA for every catchment area pupil living over three miles away from school. Should a problem arise in respect of the organisation of transport parents are asked to contact the School Transport Office in Carmarthen on 01267 234567.

During inclement weather, details of arrangements will be broadcast on the local radio station and information will be available on the school website www.ysgolystrade.orq or on www.carmarthenshire.gov.uk



# Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i Ysgol Y Strade

| | | |
|---|---|---|
| Medi | - | Sesiynau ar gyfer darpar rieni yn dilyn gwahoddiad o'r ysgol gynradd. |
| Hydref | - | Noson Agored - cyfle i ddarpar rieni a disgyblion i weld yr ysgol ar waith. |
| Tachwedd | - | Staff a disgyblion Y Strade yn ymweld ag ysgolion cynradd i gyflwyno gwybodaeth am fywyd yn yr ysgol. |
| | - | Gweithdai amrywiol i Fl.6 yn Y Strade. |
| Mawrth | - | Ymweliadau gan staff Y Strade i gasglu gwybodaeth am bob disgybl ym Ml.6. |
| Mai | - | 'Gŵyl Hwyl' Bl.5 ym Mharc y Sgarlets. |
| Mehefin | - | Derbyn mwy o wybodaeth o'r ysgol gynradd gan gynnwys lefelau craidd, presenoldeb, ymdrech ac ymddygiad. |
| Gorffennaf | - | Noson i Rieni a Disgyblion newydd |
| | - | disgyblion i'w rhoi mewn grwpiau dosbarth, cwrdd â'r tiwtor dosbarth a Mentoriad o Fl.10. |
| | - | 2 ddiwrnod pontio<br>1 diwrnod o wersi rhagflas i Fl.6; cofrestru ar system Fiometrig y Ffreutur; cwblhau holiadur diwedd Bl.6. |
| Medi | - | Gwaith Pontio |

# Transition of Pupils from Primary School to Ysgol Y Strade

| | | |
|---|---|---|
| September | - | Evening sessions for parents in response to invitations from primary schools. |
| October | - | Open Evening opportunity for future parents and pupils to see the school 'at work'. |
| November | - | Strade staff and pupils visit primary schools to give information about life at the school. |
| | - | Various workshops for Year 6 at the school. |
| March | - | Strade staff to visit primary schools to collect information on every Year 6 pupil. |
| May | - | 'Gŵyl Hwyl' for Year 5 at Parc y Scarlets. |
| June | - | Strade receives more information from primary schools - core levels, attendance, effort and behaviour etc. |
| July | - | An evening for new pupils and their parents - pupils will be placed in their form groups and meet the form tutor and Year 10 Mentors. |
| | - | 2 transition days<br>1 day of sample lessons for Year 6, register on the Biometric Catering System and complete an end of Year 6 questionnaire on feelings regarding transition from primary to secondary education. |
| September | - | Bridging Course |



# Tymhorau a Gwyliau Ysgol 2019-2020

**Tymor yr Hydref 2019**
Dydd Mawrth, Medi'r 3ydd – Dydd Gwener, Rhagfyr 20fed
**Gwyliau Hanner Tymor:**
Dydd Llun, Hydref 28ain – Dydd Gwener, Tachwedd 1af

**Tymor y Gwanwyn 2020**
Dydd Llun, Ionawr 6ed – Dydd Gwener, Ebrill 3ydd
**Gwyliau Hanner Tymor:**
Dydd Llun, Chwefror 17eg – Dydd Gwener, Chwefror 21ain

**Tymor yr Haf 2020**
Dydd Mawrth, Ebrill 21ain – Dydd Llun, Gorffennaf 20fed
**Gwyliau Hanner Tymor:**
Dydd Llun, Mai 25ain – Dydd Gwener, Mai 29ain

**O.N**
Gwener y Groglith – Ebrill 10fed 2020
Gŵyl Fai – Mai 4ydd 2020

# School Terms and Holidays 2019-2020

**Autumn Term 2019**
Tuesday, September 3rd – Friday, December 20th
**Half Term Holidays:**
Monday, October 28th – Friday, November 1st

**Spring Term 2020**
Monday, January 6th – Friday, April 3rd **Half Term Holidays:**
Monday, February 17th – Friday, February 21st

**Summer Term 2020**
Tuesday, April 21st – Monday, July 20th
**Half Term Holidays:**
Monday, May 25th – Friday, May 29th

**N.B**
Good Friday – April 10th 2020
May Day – May 4th 2020

# Gwaith Allgyrsiol

Ystyrir gwaith allgyrsiol yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn cyflawn. Yn y Strade, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n codi hunan-barch, sy'n ehangu profiadau, sy'n datblygu hyder ac sy'n rhoi profiadau lle y gellir rhannu llwyddiant.

- Chwaraeon
- Cynyrchiadau
- Crefftau
- Corau
- Dawnsio
- Clwb Astudio
- Drama
- Eisteddfod yr Urdd
- Clwb Creadigol
- Cymdeithas Gristnogol
- Clwb Gwyddoniaeth
- Clwb coginio ar ôl ysgol
- Gymnasteg
- Cerddorfa
- Ymweliadau
- Gweithgareddau 5x60
- Dug Caeredin

# Extra Curricular Work

Extra Curricular work is seen as vital to the development of the whole child. At Strade we offer a wide range of activities which raise self esteem, broaden experience, build confidence and provide experiences where success is shared.

- Sport
- School Productions
- Crafts
- Choirs
- Dancing
- Study Clubs
- Drama
- Urdd Eisteddfod
- Creative Club
- Christian Society
- Science Club
- Cookery after school club
- Gymnastics
- Orchestra
- School Visits
- 5x60 Activities
- Duke of Edinburgh Award

# Y Cwricwlwm

**Beth yw'r trefniadau ar gyfer disgyblion newydd Blwyddyn 7?**

Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu i ddosbarthiadau cofrestru. Bydd pob disgybl yn perthyn i Lys. Enwau'r llysoedd yw Buddug, Gwenllian, Madog a Rhodri.

Bydd y disgyblion yn aros gyda'r un llys o flwyddyn i flwyddyn.

Mae disgyblion yn cael eu bandio ar sail cyrhaeddiad llythrennedd a rhifedd ac yn dilyn amserlen gyda'r un band o ddisgyblion.

**Pa bynciau sy'n cael eu hastudio yn ystod y flwyddyn gyntaf?**

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Technoleg Gwybodaeth, Ffrangeg, Addysg Gorfforol, Celf, a Cherddoriaeth.

**A yw'r pynciau a'r drefniadaeth yn newid o gwbl wrth fynd ymlaen i'r ail flwyddyn?**

Mae'r cwricwlwm yn aros mwy neu lai yr un peth ym Mlwyddyn 8 a 9. Bydd polisi o setio yn y mwyafrif o'r pynciau. Gosodir y disgyblion mewn grwpiau dysgu yn ôl eu gallu mewn pynciau unigol.

**Faint o amser dysgu sydd mewn wythnos?**

Mae 25 o wersi mewn wythnos. Mae'r cwricwlwm wedi ei drefnu i fewn i 50 cyfnod awr o ddysgu. Mae'r ysgol yn gweithredu amserlen bythefnos. Mae cyfnod boreol o 20 munud yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith Bugeiliol a chyfnod boreol arall o 45 munud ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

**A yw'n bosibl i ddisgyblion ddewis y testunau maent yn eu hoffi?**

Ar ddiwedd Blwyddyn 9, mae cyfle i'r disgyblion ddewis rhai testunau penodol a rhoi'r gorau i eraill. Bydd y cwricwlwm yn adlewyrchu datblygiadau Llwybrau Dysgu ac yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Mae'n rhaid i bob disgybl ddilyn cyrsiau Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, a'r Fagloriaeth Gymraeg.

Yn ogystal â'r testunau hyn, mae cyfle i'r disgyblion ddewis tri testun arall, o rhestr o opsiynau, er enghraifft:

# The Curriculum

**What arrangements are made for new Year 7 pupils?**

Pupils are divided into registration classes. Every pupil will belong to a house. The names of the houses are:- Buddug, Gwenllian, Madog, Rhodri. Pupils will stay within the same houses throughout their school life.

Every effort is made to keep friends together when teaching/registration classes are formed.

In Year 7, Pupils are placed in bands according to literacy and numeracy achievements. Pupils follow their timetable with the same band of pupils.

**Which subjects are studied during the first year?**

Welsh, English, Mathematics, Science, Technology, History, Geography, Religious Education, Art, Music, Information Technology, French, and Physical Education.

**Will the subjects and organisation change in the Second and Third Years?**

The curriculum remains more or less unchanged in Years 8 and 9. There will be a setting policy in most subjects. Pupils will be set in groups according to their ability in individual subjects.

**How is time allocated during the school week?**

There are 25 lessons in a week. The curriculum is organised into 50 (hour) periods. The school operates a two weekly timetable. A morning session of 20 minutes is allocated for Pastoral work, and a second morning session of 45 minutes is allocated to Personal and Social Education.

**Is it possible for pupils to choose subjects that they enjoy?**

At the end of Year 9, pupils may choose to continue with some subjects but not others. The curriculum will reflect the latest developments associated with the Learning Pathways and will include a variety of general and vocational courses. Every pupil must follow courses in Welsh, English, Mathematics, Science, Religious Education, Physical Education and the Welsh Baccalaureate.

In addition to the subjects above, pupils must choose another 3 subjects, from a list of options, currently:-

Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Drama, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg (Bwyd, Graffeg, Tecstilau a Deunyddiau Gwrthiannol), Ffrangeg, Sbaeneg, Cerdd, Busnes, Datblygiad Plentyn, Gwallt a Harddwch, Adeiladu, Teithio a Thwristiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu llyfryn ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11 sy'n cynnwys manylion am yr holl destunau hyn.

**A yw'r dewisiadau'n newid o gwbl?**

Mae'r opsiynau yn gallu newid o flwyddyn i flwyddyn gan ddilyn canllawiau statudol a pholisi'r ysgol.

**A yw'r disgyblion yn cael dilyn y testunau y maent wedi eu dewis?**

Fel arfer, mae'r disgyblion yn cael dilyn y cyrsiau y maent wedi eu dewis. Mae'r ysgol yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfau i'r disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn dewis yn ddoeth, ac yn ennill profiadau eang o'u dewisiadau. Mae'n bwysig peidio arbenigo'n rhy gynnar.

**Beth am y Cwricwlwm Cenedlaethol?**

Mae'r Ysgol yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn ac felly mae cyfle gan bob disgybl i fuddio o themau ar draws y cwricwlwm.

**Pa arholiadau allanol a gynigir i'r disgyblion?**

Yng nghyfnod allweddol 4 bydd y disgyblion yn dilyn cyrsiau T.G.A.U. neu BTEC ar Lefel 1 a 2. Mae'r Ysgol hefyd yn cynnig cyrsiau Llwybrau Mynediad i'r sawl sy'n gweld y cyrsiau T.G.A.U. yn rhy anodd.

Yn ogystal, cynigir Bagloriaeth Cymru ar Lefel Sylfaenol, Canolradd ac Uwch yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5.

**Blwyddyn 12/13 - Chweched Dosbarth**

Mae'r ysgol yn gweithredu system chweched agored ac mae cyfle gan ddisgybl i ddewis llwybrau addysg arbennig.

Bydd Prospectws ar gyfer Blwyddyn 12 yn cael ei baratoi sy'n esbonio y dewis helaeth sydd ar gael.

**A oes cymorth i'r disgyblion wrth ddewis eu llwybrau?**

Mae pob disgybl yn derbyn cyfweliad gyrfau yn ystod Blwyddyn 11 a neilltuir nosweithiau rhieni yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnig cyngor pellach am addysg 16+.

History, Geography, Art and Design, Drama, Physical Education, Design and Technology, (Including Food, Graphics, Textiles, Resistant Materials), French, Spanish, Music, Business, Child Development, Hair and Beauty, Construction and Travel and Tourism.

The school provides a booklet for Years 10 and 11 which includes details about these subjects.

**Will the options change at all?**

The options do change from time to time according to statutory guidelines and School policy.

**Are the pupils able to take the subjects that they choose?**

Usually, pupils are able to take the courses that they choose. The school offers Personal Social Education and Careers Advice and Guidance to the pupils so that they may choose their subjects wisely and keep their options open without specializing too early.

**What about the National Curriculum?**

The school fully meets the demands of the National Curriculum and therefore every pupil enjoys cross - curricular themes and dimensions.

**Which external examinations are offered?**

At Key Stage 4 Pupils can study G.C.S.E. (General Certificate of Secondary Education) and BTEC courses, but the School also offers courses at Entry Pathways for those who find G.C.S.E. too demanding.

In addition the school delivers the Welsh Baccalaureate at Foundation, Intermediate and Advanced Level in Key Stages 3, 4, and 5.

**Years 12/13 "The Sixth Form"**

The School operates an open Sixth Form policy, and pupils are given the opportunity to choose certain educational pathways.

The school provides a booklet for Year 12 explaining the wide choice of subjects available.

**Is there support for students when choosing their pathways?**

Every pupil will receive a Careers interview during Year 11 and also have the opportunity to attend a pupil/parents' evening allocated for giving advice to pupils pursuing 16+ courses.

Ar ôl derbyn eu canlyniadau, rydyn ni'n gwahodd y disgyblion i'r ysgol am fore i drafod eu dewisiadau/ opsiynau gyrfau. Rydym yn ceisio sicrhau bod y disgyblion yn dilyn cyrsiau sy'n addas i'w gallu ac a fydd o gymorth iddynt ar ôl gadael yr ysgol, boed hynny er mwyn ymuno â choleg, prifysgol neu wrth ddechrau byd gwaith.

Mae cyfle wrth gwrs i ddisgyblion ddilyn cyfuniad o bynciau Lefel 3. Mae'r ysgol yn cynnig y pynciau canlynol ar hyn o bryd:-

- Cymraeg
- Ffrangeg
- Bioleg
- Ffiseg
- Dylunio a Thechnoleg
- Electroneg
- Hanes
- Busnes
- Gwleidyddiaeth
- Celf
- Drama
- Addysg Gorfforol
- Ffasiwn
- Iechyd a Gofal
- Adeiladu
- Saesneg
- Sbaeneg
- Cemeg
- Mathemateg
- TGCh
- Addysg Grefyddol
- Daearyddiaeth
- Seicoleg
- Y Gyfraith
- Cerddoriaeth
- Technoleg Cerdd
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Chwaraeon
- Gofal Plant

After receiving their results we extend an invitation to all Year 11 pupils to come to the School for a morning so that we can ensure that they pursue courses suited to their ability and relevant to their needs when they leave for college, university or take up employment.

Students may of course choose a combination of subjects. The school currently offers the following Level 3 courses:-

- Welsh
- French
- Biology
- Physics
- Design and Technology
- Religious Education
- Business
- Politics
- Art
- Drama
- Physical Education
- Health and Social Care
- Construction
- English
- Spanish
- Chemistry
- Mathematics
- ICT • Electronics
- History • Geography
- Psychology
- Law
- Music
- Music Technology
- Public Services
- Child Care



# Asesu ac Arholiadau

Bydd Asesiad Parhaol yn cael ei wneud ar waith pob disgybl ym Mlynyddoedd 7-9 drwy gydol y flwyddyn. Fe wneir yr Asesiad ar ôl uned o waith a bydd ffurflen arbennig yn llyfr gwaith y disgybl ar gyfer pob uned. Bydd hyn yn digwydd o leiaf unwaith bob tymor.

Ddwywaith y flwyddyn bydd ymgais i ddarganfod pa ddisgyblion sydd yn tangyflawni (h.y. diwedd tymor yr Hydref a diwedd tymor y Pasg). Gwneir hyn trwy gyfrwng system dracio fewnol yr ysgol.

Cynhelir arholiadau ysgrifenedig yn y rhan fwyaf o bynciau unwaith y flwyddyn ym mis Mehefin.

# Adroddiad i Rieni

O leiaf unwaith bob tymor bydd modd i'r rhieni weld datblygiad eu plentyn trwy ddarllen y ffurflenni uned o waith.

Ar ddiwedd y flwyddyn rhoddir Adroddiad llawn o waith y disgybl. Bydd ffurflen gyda'r Adroddiad i rieni arwyddo eu bod wedi derbyn yr adroddiad, a dylid dychwelyd y ffurflen hon i'r Athro Dosbarth.

Mae Adroddiad Cenedlaethol ar berfformiad disgyblion yn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn cael ei ddosbarthu gyda'r adroddiad diwedd blwyddyn.

Gall rhieni gysylltu â'r Pennaeth Safonau i drafod yr Adroddiad yn ôl yr angen.

# Nosweithiau Rhieni

Ceir Noson Rieni ar gyfer pob blwyddyn lle mae cyfle i drafod cynnydd y disgyblion yn fanwl gyda'r athrawon testun sy'n eu dysgu. Anogir rhieni i fynychu'r nosweithiau hyn. Hysbysir y rhieni am y nosweithiau hyn yn agosach at y dyddiad.

# Amserlen Nosweithiau Rhieni

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 7 | Tachwedd |
| Blwyddyn 8 | Ionawr |
| Blwyddyn 9 | Mawrth |
| Blwyddyn 10 | Chwefror |
| Blwyddyn 11 | Mawrth |
| Blwyddyn 12 | Tachwedd |
| Blwyddyn 13 | Tachwedd |

# Assessment and Examinations

Ongoing assessments of every Year 7-9 pupil's progress will occur throughout the year. The assessments will be carried out after an unit of work has been completed and a special form will be placed in the pupil's work book for every unit. This will take place at least once a term.

Twice during the year there will be an attempt to identify the pupils who have excelled or have underachieved (i.e. at the end of Autumn and Easter terms). This will be done via the internal school tracking system.

All pupils will sit a written examination in most subjects in June.

# Reports to Parents

At least once a term parents will be able to see their child's development by reading the forms at the end of an unit of work.

At the end of the year all pupils will receive a full Report. A form will be provided for parents to sign to show that they have received the reports, and this should be returned to the Form Tutor.

A National Report in Pupils' achievements in the National Reading and Numeracy tests is part of the end of year reports.

If necessary, parents can contact the Head of Standards to discuss the report.

# Parents' Evening

Parents' evenings are held annually for each group of pupils at the school, where parents are given the opportunity to meet the various subject teachers in order to discuss the progress of their children. Parents will be notified of these evenings nearer to the date. Parents are urged to attend these evenings.

# Parents' Evenings Timetable

| | |
|---|---|
| Year 7 | November |
| Year 8 | January |
| Year 9 | March |
| Year 10 | February |
| Year 11 | March |
| Year 12 | November |
| Year 13 | November |

# Gwaith Cartref

Disgwylir i ddisgyblion gyflawni tasgau gwaith cartref sy'n addas i'w hoed a natur y cyrsiau maent yn astudio. Pwrpas gwaith cartref yw cadarnhau'r gwaith a wneir yn yr ysgol, a rhoi cyfle i'r disgybl ddysgu gweithio ar ei ben ei hun heb gymorth.

Bydd disgwyl i bob disgybl brynu Llyfr Cyswllt. Yn y llyfr hwn bydd lle i'r disgybl ysgrifennu pa waith cartref sydd ganddo bob noson.

Bydd y rhieni yn llofnodi'r Llyfr Cyswllt yn wythnosol a'r Tiwtor Dosbarth unwaith bob pythefnos. Felly, cyfrifoldeb y rhieni fydd gwneud yn siwr fod eu plant yn cwblhau'r gwaith fel y gwelir yn y Llyfr Cyswllt.

Bydd y Penaethiaid Safonau a'r Tiwtoriaid Dosbarth yn cadw golwg manwl ar y Llyfr Cyswllt unwaith bob mis.

# Salwch

Wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl absenoldeb, bydd yr ysgol yn gofyn am nodyn o eglurhad yn y Llyfr Cyswllt neu fe ellir ffonio un o'r ysgrifenyddion yn y Swyddfa (Llanelli 745100).




# Homework

All pupils are expected to do homework appropriate to their age and the courses they are following. The intention of homework is to reinforce what is done in the school, and more importantly, to give children the chance to learn to work unsupervised and unassisted.

Every pupil is expected to buy a Contact Book provided by the school. In the book there is sufficient space for pupils to write whatever homework they have for every night of the week.

Parents are asked to sign the Contact Book once a week and the Form Tutor every fortnight. It is the parents' responsibility to check that their children are completing their homework as set out in the book.

Form Tutors and Heads of Standards will also supervise the Contact Book once a month.

# Illness

On returning to school after absence, please write an explanatory note in the Contact Book, or if you prefer phone the School Secretaries in the office on Llanelli 745100.



# Cytundeb Cartref-Ysgol

Mae'r Ysgol am i rieni fod yn ymwybodol o'n Cytundeb Cartref-Ysgol sy'n diffinio cyfrifoldebau'r Myfyrwyr, y Rhieni a'r Ysgol. Cyfeirir hefyd at bolisi E-diogelwch yr ysgol. Mae hwn ar gael yn y Llyfr Cyswllt. Mae'r adran "Safonau yn yr Ysgol" ar ddechrau'r Llyfr Cyswllt yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan y disgyblion ac yn tynnu sylw at gyfrifoldeb rhieni. Dyma gyfle i rieni chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant.

# Cyfathrebu â Rhieni

Anogir rhieni i gysylltu â'r Ysgol ynglŷn ag unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnydd eu plentyn. Dosberthir Calendr Ysgol i rieni ar ddechrau'r flwyddyn sy'n tynnu sylw at ddigwyddiadau pwysig. Mae gwefan yr Ysgol (www.ysgolystrade.org) yn hyrwyddo'r Ysgol y tu hwnt i'r gymuned leol.

# Cymeradwyo

**Mae cymeradwyo yn ffactor allweddol mewn addysg plentyn:**

- Rhoddir cymeradwyaeth yn rheolaidd am waith da a gyflawnwyd - naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig yn y llyfrau ysgrifennu neu'r Llyfr Cyswllt.
- Cofnodir gwaith da, ymddygiad da a chyraeddiadau yn yr Adroddiadau ac ar lafar.
- Cydnabyddir gwahanol fathau o lwyddiant yn y gwersi Bugeiliol, y Gwasanaethau Blwyddyn neu'r Gwasanaeth Llawn.
- Arddangosir gwaith disgyblion gymaint â phosib.
- Croesawir y cyfle i roi clod i unigolion gan y Pennaeth, y Dirprwy a'r Penaethiaid Safonau.
- Anogir disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**Pan fydd rhaid cosbi gwneir hyn mewn gwahanol ffyrdd:**

- Gwaith cartref ychwanegol.
- Atalfa amser egwyl/cinio.
- Arolwg dyddiol.
- Cymryd allan o wersi am gyfnod.

**Mae gan yr Ysgol gamau gweithredu pendant i ddelio â gwahanol droseddau.**

- Problemau pob dydd, llai difrifol: Tiwtor Dosbarth/Pennaeth Safonau
- Problemau disgyblaeth ddifrifol: Uwch Dîm arwain ac yna'r Pennaeth lle na fydd gwelliant yn digwydd.

Cysylltir â'r rheini a'u gwahodd i'r ysgol er mwyn trafod ymddygiad eu plentyn yn ôl yr angen.

Bydd yr Awdurdod yn caniatau i ysgol wahardd disgyblion o'r ysgol am gyfnod penodedig mewn rhai amgylchiadau eithriadol.

# Home School Agreement

All parents are asked to be aware of our Home School Agreement which defines respective responsibilities of Students, Parents and the School. This can be found in the Pupil's Contact Book. The 'Standards in the School' section at the front of the Planner sets out what is expected of pupils and highlights parental responsibility; it also refers to the school E-safety policy. This offers parents the opportunity to actively engage in the education of their children.

# Communication with Parents

All parents are urged to contact the School over any matter relating to their child's progress. A School Calendar is circulated to parents every September highlighting important events The School website (www.ysgolystrade.org) promotes the School beyond the local community.

# Praise and Reward

**We consider praise and reward to be a key element in a child's education:-**

- Praise is regularly given for any good work produced either orally or written in exercise books or in Contact Books.
- Good work and good attitude and behaviour is recorded in the School Reports.
- Different kinds of success and achievements is acknowledged in the Pastoral lessons, the Year and whole school Assemblies.
- Pupils' work is exhibited whenever possible.
- The opportunity to praise and reward pupils is welcomed by the Headteacher, the Deputy and Heads of Standards.
- Pupils are encouraged to take part in extra curricular activities.

**When punishment is necessary it is administered in the following ways:-**

- Additional Homework.
- Kept in at break and lunchtimes.
- On Report.
- Removal from lessons for a period of time.

**Disciplinary problems are dealt with in the following ways:-**

- Everyday, less serious problems: Form tutor, Head of Standards.
- More serious problems: Senior Leadership Team and then the Headteacher if there is no improvement.

The Authority allows the school to exclude pupils from the school for a fixed period in exceptional circumstances.

# Gwisg yr Ysgol

**Pob disgybl**
Tei yr ysgol.
**Siwmper** nefi gwddf 'v' gyda logo'r ysgol wedi'i frodio arno - **nid cardigan.** Esgidiau du.
**Ni chaniataeir 'trainers' nac esgidiau 'cynfas'. Sawdl heb fod yn rhy uchel i'r merched.** Dillad allanol synhwyrol – byddai cot unlliw, dywyll yn ddymunol. Ni chaniateir siacedi denim na lledr.

**Gwisg ysgol y bechgyn**
Crys – gwyn
Trowsus – du / llwyd tywyll
Sanau – du / llwyd / gwyn

**Gwisg ymarfer corff y bechgyn**
Crys polo gwyn â bathodyn yr ysgol Siorts gwyn
Esgidiau ymarfer corff
Jersi rygbi ysgol
Sanau rygbi coch

**Gwisg ysgol y merched**
Sgert/ Trowsus – nefi, heb fod yn rhy fyr nac yn rhy dynn (dim sgert 'lycra' na throwsus 'skinny')
Sanau / Teits – nefi/ teits nefi trwchus

**Gwisg ymarfer corff y merched**
Crys polo coch â bathodyn yr ysgol
Sgorts nefi â bathodyn yr ysgol (Manhattan Marketing yn unig) Esgidiau ymarfer corff
Crys chwys llwyd

**Ni chaniateir i ddisgybl wisgo:**
- Unrhyw fath o 'drainers' neu esgidiau 'cynfas'
- Clustdlysau – dim ond styds yn unig - un ym mhob clust, i'w gwisgo ar waelod y glust yn unig.
- Styds na modrwy ar unrhyw ran arall o'r corff e.e. y trwyn, aeliau a.a.
- Mwy nag un fodrwy ar bob llaw.
- Siwmper/crys chwys/hwdi/siaced lliw o unrhyw fath.
- Esgidiau heb sanau/teits.
- Crys/blows tu allan i drowsus/sgert.
- Colur
- Gwallt wedi'i liwio neu'i steilio'n eithafol.

# School Uniform

**All pupils**
School tie
Navy knitted 'v' neck jumper with embroidered school badge - **not a cardigan**. Shoes – black.
**Trainers or canvas shoes are not permitted. Heels must be of a sensible height for the girls.**
Sensible outdoor clothes – a dark one-coloured coat would be desirable. Denim or leather jackets are not permitted.

**Boys Uniform**
Shirt – white
Trousers – black / charcoal grey
Socks – black / grey / white

**Boys PE uniform**
White polo shirt with school badge White shorts
Gym shoes
School rugby jersey
Red rugby socks

**Girls Uniform**
Skirt/ Trousers – navy, without being too short or too tight (no 'lycra'skirts or 'skinny' trousers)
Socks /Tights – navy/ thick navy tights

**Girls PE uniform**
Red polo shirt with school badge
Skorts - navy with school badge (Manhattan Marketing only) Gym shoes
Grey sweatshirt

**Pupils are not allowed to wear:**
- Any sort of trainers or canvas shoes.
- Earrings – only studs - one in each ear, to be worn on the ear lobe.
- Studs or a ring on any other part of the body e.g. the nose, eyebrows etc.
- More than one ring on each hand.
- Coloured jumpers/sweatshirts/"hoodies'/jackets of any kind.
- Shoes without socks/tights.
- Shirt/blouse outside the trousers/skirt.
- Makeup
- Extreme hair colour or style.





# Lles Disgyblion

Wrth symud i'r ysgol gyfun, bydd disgybl yn symud o awyrgylch fach i sefyllfa llawer mwy o ran nifer y disgyblion a'r adeiladau.

